Ysgol Gynradd Sirol Wdig
Hill Street
Wdig
Sir Benfro
SA64 0ET

19/12/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Sirol Wdig yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol yn annibynnol ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion. Maent wedi cydweithio â staff i ehangu adnoddau digidol yr ysgol sy’n cyfrannu at ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ystod o fedrau yn y maes hwn. Maent wedi sicrhau bod cyfarpar digidol ar gael o fewn y dosbarthiadau sy’n cefnogi dysgu ehangach y disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae staff wedi cydweithio i ailedrych ar y cyfleoedd i ddatblygu medrau digidol y disgyblion ar draws yr ysgol. Trwy hyn, mae’r cyfleoedd yn adeiladu’n gydlynus ar fedrau’r disgyblion dros gyfnod.
- Mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol, mae staff yn dechrau rhannu arferion da gyda’i gilydd. Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i gynllunio cyfleoedd pellach i staff ymweld ag arfer dda mewn ysgolion eraill.

- Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ehangach yn briodol drwy ddefnyddio 'crwban electronig', ac erbyn brig yr ysgol, mae'r disgyblion yn defnyddio meddalwedd codio yn llwyddiannus i greu eu gemau eu hunain.
- Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio ystod o offer a rhaglenni digidol i gefnogi eu dysgu yn llwyddiannus mewn cyd-destunau buddiol ar draws y cwricwlwm.
- Ar draws yr ysgol, mae disgyblon yn defnyddio taenlenni, meddalwedd creu cyflwyniadau ac yn cofnodi a chyflwyno eu gwaith yn effeithiol.
- Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd perthnasol wrth ddatblygu eu medrau digidol yn gynyddol annibynnol.

### Sicrhau bod cyflymder y gwersi yn effeithiol ac yn gyson ar draws yr ysgol

- Yn dilyn gwaith ymchwil priodol, trafodaethau proffesiynol a chyfleodd i athrawon arsylwi ei gilydd, mae arweinwyr wedi gwella dealltwriaeth staff o wahanol strategaethau addysgu i gyflwyno gweithgareddau i ddisgyblion ar gyflymder sy'n addas i'r dysgu.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn a chynnal diddordeb llawer o ddisgyblion yn briodol. Mae hyn yn cyfrannu at frwdfrydedd disgyblion wrth iddynt ymroi i'w dysgu yn llwyddiannus.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw at y rheolau dosbarth a chyfarwyddiadau athrawon. Maent yn dangos parch at staff wrth wrando'n oddefol ar gyflwyniadau perthnasol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn or-ddibynnol ar arweiniad oedolion, sydd, yn ei dro, yn amharu ar rediad y wers ac ar eu cynnydd.
- Erbyn brig yr ysgol, mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau i ddisgyblion ar gyflymder sy'n addas i'r dysgu. Maent yn cynnal seibiannau rheolaidd sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o'u dysgu yn dda.
- Yn ystod sesiynau dysgu, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r cynorthwywyr er mwyn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau ymhellach. Mae'r cynorthwywyr yn ymyrryd a chefnogi'r disgyblion yn synhwyrol, heb amharu'n ormodol ar gyflymder y gwersi.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6682212

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol